# Marchnadoedd digidol, cyfathrebiadau a’r cyfryngau: diweddaru meysydd ffocws Ofcom

Cyhoeddwyd: 5 Rhagfyr 2024

## Trosolwg

Ym mis Medi 2022, fe wnaethon ni gyhoeddi ein Strategaeth Marchnadoedd Digidol[1], sy’n nodi sut byddem yn cefnogi cystadleuaeth a’r canlyniadau gorau i gwsmeriaid ac i fusnesau wrth ystyried effaith marchnadoedd digidol ar y sectorau cyfathrebiadau a chyfryngau yn y Deyrnas Unedig (y DU).

Mae marchnadoedd digidol yn gallu trawsnewid profiadau defnyddwyr ar draws y sectorau rydyn ni’n eu rheoleiddio, ond gallai’r ffordd maen nhw’n rhyngweithio a’r sectorau cyfathrebiadau a chyfryngau arwain at bryderon o ran cystadleuaeth. Yn gyson â’n strategaeth, rydyn ni wedi cynnal astudiaeth o’r farchnad gwasanaethau cwmwl yn y DU o dan Ddeddf Menter 2002 (y Ddeddf Menter) ac wedi gwneud gwaith arall ar niwtraliaeth y rhyngrwyd, gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein, a llwyfannau teledu cysylltiedig.

Mae’r ddogfen hon yn diweddaru ein meysydd ffocws o dan ein strategaeth: yn benodol, ystyried effaith cwmnïau digidol mawr ar fand eang symudol a’r berthynas sy’n datblygu rhwng llwyfannau chwilio, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a chyhoeddwyr.

Bydd ein gwaith yn ystyried y ddeddfwriaeth sydd wedi troi’n gyfraith ers cyhoeddi ein strategaeth. Ym mis Mai, daeth Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 (y Ddeddf DMCC) yn gyfraith. Mae’n rhoi’r pŵer i’r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd weithredu’r drefn marchnadoedd digidol, sydd o blaid cystadleuaeth.

Mae’r Ddeddf DMCC hefyd yn cynnwys darpariaethau i alluogi cyd-drefnu pellach rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys Ofcom. Lle bo’n briodol, byddwn yn cyd-drefnu â’r Awdurdod, gan rannu dealltwriaeth a gwneud yn siŵr ein bod yn mabwysiadu agwedd gydlynol at reoleiddio digidol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda’r Awdurdod i reoli’r rhyngweithiadau rhwng diogelwch ar-lein a’r drefn marchnadoedd digidol, sydd o blaid cystadleuaeth.

Yn fwy cyffredinol, byddwn yn parhau i fonitro’r sectorau cyfathrebiadau a chyfryngau i nodi risgiau a manteision posib gwasanaethau digidol i ddefnyddwyr a busnesau. Os byddwn yn gweld tystiolaeth nad yw marchnadoedd yn gweithio er budd defnyddwyr, byddwn yn ymyrryd os oes angen.


[1] Ofcom, Marchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebiadau, 2022.

# Strategaeth a dull gweithredu Ofcom ar gyfer marchnadoedd digidol

Erbyn hyn, mae gwasanaethau digidol yn rhan annatod o'r ffordd mae pobl yn cyfathrebu ac yn defnyddio cynnwys cyfryngau. Ers creu Ofcom dros 20 mlynedd yn ôl, mae'r rhyngrwyd wedi trawsnewid y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu, yn prynu pethau, yn cael gwybodaeth ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae gwasanaethau digidol wedi newid y ffordd rydyn ni'n byw ac yn gweithio, gan greu manteision i ddefnyddwyr a chyfleoedd newydd i fusnesau.

Wrth galon y trawsnewid hwn mae'r sectorau cyfathrebiadau a chyfryngau. Mae gwasanaethau cyfathrebu digidol yn cynnig rhagor o ddewis a blaengarwch, gan alluogi defnyddwyr i gael gafael ar gynnwys a chysylltu â'i gilydd mewn ffyrdd mwy a mwy hyblyg ac arloesol, a helpu busnesau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac i ddarparu gwasanaethau newydd. Fel y gwelir isod, mae'r rhyngrwyd yn hollbwysig o ran sut mae gwasanaethau cyfathrebu'n cael eu darparu, gan gynnwys ffonio ac anfon negeseuon, a chael gafael ar gynnwys ar y teledu a drwy gyfryngau eraill. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau ar-lein newydd, arloesol sy'n ategu neu'n cymryd lle ein ffyrdd traddodiadol o gyfathrebu.

**Ffigur 1: Cadwyn gwerth cyfathrebu digidol**




Fodd bynnag, heb eu rheoli, gall natur rhai marchnadoedd digidol godi pryderon newydd ynglŷn â chystadleuaeth a allai rwystro arloesedd, buddsoddiad a thwf – gan niweidio'r bobl a'r gwasanaethau sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn, yn ogystal â'r economi yn ehangach o bosib. Felly, mae'n hollbwysig bod grymoedd cystadleuol dynamig yn dal yn gallu effeithio ar farchnadoedd digidol i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i gynnig arloesedd a gwerth i bawb, gan gynnwys defnyddwyr cyfathrebiadau a chyfryngau.

## Rôl Ofcom mewn marchnadoedd digidol

Ers cyhoeddi ein Strategaeth Marchnadoedd Digidol yn 2022, mae deddfwriaeth newydd wedi creu sail i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd sefydlu trefn sydd o blaid cystadleuaeth ar gyfer

marchnadoedd digidol. Mae'r Ddeddf DMCC yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod roi dynodiad Statws Marchnad Strategol i gwmnïau sy'n cyflawni gweithgareddau digidol, a gorfodi rheolau newydd ar y cwmnïau hyn.[2] Uned Marchnadoedd Digidol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fydd yn gyfrifol am y swyddogaeth hon.

Mae'r Ddeddf DMCC yn cynnwys darpariaethau i alluogi cyd-drefnu pellach rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a rheoleiddwyr digidol eraill. Mae'n gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i ymgynghori ag Ofcom, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Banc Lloegr a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus pan allai gweithredoedd marchnadoedd digidol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd effeithio ar agweddau penodol ar ei gylch gwaith rheoleiddiol. Mae'r Ddeddf DMCC hefyd yn rhoi pŵer i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac Ofcom wneud argymhellion i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn cysylltiad â sut mae'n defnyddio ei bwerau marchnadoedd digidol. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac Ofcom yn disgwyl cyhoeddi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn y dyfodol agos, a fydd yn nodi sut y byddwn yn rhoi darpariaethau cyd-drefnu rheoleiddiol y Ddeddf DMCC ar waith.

Bydd Ofcom yn ymgysylltu â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd lle mae gwaith yr Awdurdod ar ddynodiadau Statws Marchnad Strategol ac ymyriadau rheoleiddio posib yn effeithio ar y sectorau cyfathrebiadau a chyfryngau yn ein cylch gwaith rheoleiddio. Byddwn yn rhannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd yn y sectorau cyfathrebiadau, ac yn gweithio i sicrhau dull gweithredu cydlynol ar gyfer rheoleiddio digidol. Mae'r cyd-drefnu hwn yn adeiladu ar ein perthynas agos bresennol â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, er enghraifft mewn cysylltiad â phwerau cystadleuaeth cydredol. Mae ein hymgysylltiad ychwanegol â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol hefyd yn ein galluogi i gefnogi dull rheoleiddio cydlynol ar draws y dirwedd rheoleiddio digidol ehangach.

Ar ben hynny, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn ein sectorau i nodi risgiau a manteision posib gwasanaethau digidol i ddefnyddwyr a busnesau. Byddwn yn ystyried a ddylid gweithredu, os yw hynny'n ofynnol ac yn briodol, gan ddefnyddio ein pwerau ein hunain. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gweithredu mewn cysylltiad â mater sy'n ymwneud â chystadleuaeth neu ddiogelu defnyddwyr, ac a ydym yn gweithredu ein hunain neu'n cefnogi rheoleiddiwr arall, fesul achos. Bydd hyn yn dibynnu ar ystyriaethau sy'n cynnwys: i ba raddau mae mater yn ymwneud â'n ffocws strategol; pa mor frys a pherthnasol yw mater; blaenoriaethau gweinyddol Ofcom; a pha mor berthnasol yw'r mater i waith rheoleiddwyr eraill.

---

[2] Mae Rhan 1 o'r Ddeddf DMCC yn rhoi pwerau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn cysylltiad â hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol. O dan y Ddeddf DMCC, mae gan yr Awdurdod y pŵer i roi dynodiad Statws Marchnad Strategol mewn cysylltiad â gweithgaredd digidol i gwmnïau. Ar ôl dynodi, bydd yr Awdurdod yn gallu nodi gofynion o ran sut dylai'r cwmnïau hyn ymddwyn mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwnnw (Gofynion Ymddygiad). Bydd hefyd yn gallu ymchwilio i weld a oes unrhyw ffactorau sy'n ymwneud â gweithgaredd digidol perthnasol yn effeithio'n niweidiol ar gystadleuaeth ac y byddai modd rhoi sylw iddynt drwy Ymyriadau o Blaid Cystadleuaeth.

### Fel rhan o’n rhaglen waith, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau rhyngwladol

Nid y DU yw’r unig un sy’n ymateb i’r heriau o ran cystadleuaeth a defnyddwyr sy’n cael eu creu gan farchnadoedd digidol. Mae gan lawer o lwyfannau ar-lein mawr ôl troed byd-eang, gan weithredu ac arloesi ar draws awdurdodaethau, sy’n golygu y gall newidiadau ddigwydd yn gyflym ac yn fyd-eang. Yn rhyngwladol, mae awdurdodau rheoleiddio wedi parhau i ganolbwyntio mwy a mwy ar farchnadoedd digidol. Rydyn ni’n gweld llwyfannau ar-lein yn cael eu rheoleiddio ex ante yn fyd-eang, yn enwedig yn yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) drwy’r Ddeddf Marchnadoedd Digidol. Mae rheoleiddio effeithlon a chydlynol yn allweddol i fynd i’r afael â’r heriau cymhleth y mae gwasanaethau a thechnolegau digidol yn eu creu.

Rydyn ni’n cadw diddordeb cryf mewn deddfwriaeth marchnadoedd digidol yn rhyngwladol, er enghraifft y Ddeddf Marchnadoedd Digidol yn yr UE ac mewn datblygiadau ehangach yn yr Unol Daleithiau, lle mae’r Comisiwn Masnach Ffederal a’r Adran Gyfiawnder wedi mynd ar drywydd nifer o achosion gwrthglymbleidiol yn erbyn llwyfannau ar-lein mawr. Gall ymyriadau rheoleiddio sy’n cael eu gorfodi mewn gwledydd eraill effeithio ar y ffordd mae cwmnïau digidol yn gweithredu yn y DU, hyd yn oed pan nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i’r DU. Er enghraifft, mae disgwyl i benderfyniad Microsoft i ddad-fwndelu Microsoft Teams oddi wrth Office 365 yn fyd-eang mewn ymateb i ymchwiliadau gwrthglymbleidiol yn yr UE effeithio ar sut mae gwasanaethau cyfathrebu yn gweithio yn y DU.[3]

## Gwaith diweddar i archwilio sut mae marchnadoedd digidol yn ail-lunio cyfathrebiadau

Yn Strategaeth Marchnadoedd Digidol 2022, fe wnaethon ni nodi meysydd ffocws ar gyfer ein gwaith, sef: niwtraliaeth y rhyngrwyd, gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein a phyrth cynnwys digidol, ochr yn ochr â’n hastudiaeth o’r farchnad gwasanaethau cwmwl yn y DU o dan y Ddeddf Menter. Fe wnaethon ni nodi bod gan bob un o’r meysydd hyn gysylltiadau sylweddol â’r gadwyn gwerth cyfathrebu digidol ac rydyn ni wedi gwneud gwaith i ddeall y materion a godwyd.

### Rydyn ni wedi cwblhau ein hastudiaeth o’r farchnad gwasanaethau seilwaith cwmwl ac wedi cyfeirio’r farchnad at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i’w hystyried ymhellach

Mae busnesau ar draws economi’r DU yn mabwysiadu cyfrifiadura yn y cwmwl ac mae wedi dod yn fewnbwn hanfodol i wasanaethau ar draws y gadwyn gwerth cyfathrebiadau digidol, gan gynnwys yn y sectorau telegyfathrebiadau a darlledu. Mae disgwyl i’r cwmwl fod yn sail i ddatblygiad deallusrwydd artiffisial (AI), gan ei fod yn darparu'r adnoddau a'r seilwaith cyfrifiadurol sydd eu hangen i hyfforddi a defnyddio modelau AI ar raddfa fawr. Cynhaliodd Ofcom astudiaeth o’r farchnad gwasanaethau cwmwl yn y DU o dan y Ddeddf Menter i asesu pa mor dda mae’r farchnad hon yn gweithio, a ddaeth i ben ym mis Hydref 2023.[4]

---

[3] Microsoft, Realigning global licensing for Microsoft 365, Ebrill 2024.
[4] Ofcom, Astudiaeth o’r farchnad gwasanaethau cwmwl, 2023.

Gwelsom dystiolaeth o rai canlyniadau cadarnhaol i gwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys cynnyrch arloesol a dewis eang o wasanaethau gan ddarparwyr cwmwl a gwerthwyr meddalwedd annibynnol sy'n adeiladu eu cynnyrch ar seilwaith darparwyr cwmwl.

Fodd bynnag, mae'r cyflenwad o seilwaith cwmwl yn y DU yn ddwys. Roedden ni'n credu bod rhai o nodweddion y farchnad yn atal cystadleuaeth drwy ei gwneud hi'n anoddach i gwsmeriaid newid a defnyddio mwy nag un cyflenwr. Roedd y nodweddion hyn yn cynnwys: ffioedd y mae cwsmeriaid yn eu talu i drosglwyddo eu data o gwmwl; diffyg gallu i ryngweithredu a chludo rhwng gwahanol gymylau; a gostyngiadau gwario sy'n cymell cwsmeriaid i ddefnyddio un darparwr cwmwl. Mae hyn yn gallu achosi niwed i gwsmeriaid y cwmwl, naill ai drwy godi prisiau uwch neu atal mynediad at gynnyrch arloesol. Roedden ni hefyd yn bryderus, wrth symud ymlaen, pe bai cwsmeriaid yn cael trafferth newid a defnyddio mwy nag un darparwr, y gallai fod yn anoddach i gystadleuwyr dyfu a herio arweinwyr y farchnad.

O ystyried y pryderon roedden ni wedi'u nodi, fe wnaethon ni atgyfeirio marchnad gwasanaethau seilwaith cwmwl cyhoeddus y DU at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd er mwyn cynnal ymchwiliad i'r farchnad. Mae'r ymchwiliad hwn yn mynd rhagddo a bydd yn dod i ben fis Awst 2025 fan bellaf.[5]

## Fe wnaethon ni ddiweddaru ein canllawiau ar niwtraliaeth y rhyngrwyd er mwyn i farchnadoedd digidol allu datblygu ymhellach

Mae niwtraliaeth y rhyngrwyd wedi chwarae rôl hollbwysig yn galluogi pobl i gael gafael ar y cynnwys a'r gwasanaethau maen nhw eu heisiau, gan gynnwys pori'r we, ffrydio fideos a phostio ar gyfryngau cymdeithasol. Mae rheolau niwtraliaeth y rhyngrwyd yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd yn trin y traffig y mae eu rhwydweithiau band eang a symudol yn ei gario'n gyfartal, ac nad ydynt yn blaenoriaethu nac yn arafu cynnwys neu wasanaethau penodol mewn ffordd sy'n ffafrio rhai dros eraill. Wrth i dechnoleg ddatblygu ac wrth inni dreulio rhagor o'n hamser ar-lein, mae'n bwysig bod niwtraliaeth y rhyngrwyd yn parhau i gefnogi arloesedd, buddsoddiad a thwf, a hynny ymysg darparwyr cynnwys a darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd.

Roedd ein datganiad niwtraliaeth y rhyngrwyd yn 2023 yn nodi casgliadau ein hasesiad o sut roedd y fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd yn gweithio.[6] Fe wnaethon ni hefyd gyhoeddi canllawiau newydd ar sut dylai'r rheolau fod yn berthnasol.[7]

Yn gyffredinol, fe wnaethon ni ganfod bod niwtraliaeth y rhyngrwyd wedi gweithio'n dda ac wedi cefnogi'r dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr. Mae hefyd wedi galluogi darparwyr cynnwys i gyflenwi eu cynnwys a'u gwasanaethau i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd lle roedden ni wedi darparu rhagor o eglurder mewn canllawiau diwygiedig i alluogi darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd i arloesi a rheoli eu rhwydweithiau'n fwy effeithlon, a hynny i wella eu gweithrediadau a'r canlyniadau i ddefnyddwyr. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys rheoli traffig, cynigion manwerthu gwahaniaethol, a chyfradd sero. Yn y cyd-destun hwn, gall arloesi gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd fod yn rhan annatod o sector digidol bywiog a deinamig.

[5] Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Cloud services market investigation.
[6] Ofcom, Adolygiad o Niwtraliaeth y Rhyngrwyd , 2023.
[7] Ofcom, Canllawiau ar ddull Ofcom o asesu cydymffurfedd â rheolau niwtraliaeth y rhyngrwyd, 2023.

Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfedd â rheolau niwtraliaeth y rhyngrwyd, ein canllawiau newydd a'r ecosystem rhyngrwyd ehangach yn fwy cyffredinol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol i nodi ein canfyddiadau yn gynnar yn 2025.

## Fe wnaethon ni edrych ar gystadleuaeth mewn gwasanaethau cyfathrebu ar-lein personol, sy'n fwy a mwy pwysig o ran sut mae pobl yn cyfathrebu

Mae gwasanaethau cyfathrebu ar-lein personol yn prysur ddod yn rhan ganolog o fodloni anghenion cyfathrebu pawb, gyda gwasanaethau fel WhatsApp yn disodli technolegau hŷn fel SMS yn raddol. Ym mis Hydref 2023, fe wnaethon ni gyhoeddi dogfen drafod ar wasanaethau cyfathrebu ar-lein personol, a oedd yn edrych yn fanwl ar faterion yn ymwneud â chystadleuaeth a defnyddwyr yn y farchnad.[8] Gwelsom fod gan WhatsApp, a gwasanaethau cyfathrebu ar-lein Meta yn gyffredinol, safle cryf yn y farchnad yn y DU. Mae natur gwasanaethau cyfathrebu ar-lein – sy'n caniatáu i ddefnyddwyr anfon negeseuon at bobl eraill sydd ar yr un gwasanaeth yn unig – yn creu effeithiau rhwydwaith, a allai roi mantais i lwyfannau mwy, gan rwystro llwyfannau newydd neu lai o faint rhag ymuno â'r farchnad ac ehangu, a'i gwneud hi'n anodd iddynt ddenu defnyddwyr.

Fodd bynnag, gwelsom ganlyniadau cadarnhaol ar y cyfan i ddefnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu ar-lein ar hyn o bryd, heb fawr o dystiolaeth o niwed sylweddol o ganlyniad i unrhyw faterion sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Mae gan ddefnyddwyr fynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau, sy'n cael eu darparu am ddim fel arfer. Mae datblygiad y gwasanaethau hyn yn dangos rhywfaint o gymhelliant i wella gwasanaethau, hyd yn oed ymysg darparwyr sydd â sylfaen fawr o ddefnyddwyr.

O ystyried y canfyddiadau hyn, a gan gydnabod y gall gwasanaethau cyfathrebu ar-lein ddatblygu'n gyflym, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y sector rhag ofn y bydd pryderon newydd yn codi yn y dyfodol wrth i nodweddion, defnydd a modelau busnes gwasanaethau cyfathrebu ar-lein ddatblygu. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro datblygiadau mewn gwaith rheoleiddio yn yr UE wrth i rai gwasanaethau cyfathrebu ar-lein mawr roi gofynion rhyngweithredu ar waith.[9]

## Rydyn ni wedi edrych ar rôl llwyfannau teledu cysylltiedig fel pyrth cynnwys digidol a sut maen nhw'n sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y DU yn gallu cael gafael ar gynnwys

Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio setiau teledu clyfar, bocsys pen set a dyfeisiau ffrydio eraill sy'n cynnwys meddalwedd llwyfan teledu cysylltiedig i wylio teledu. I gyd-fynd ag arferion a disgwyliadau cynulleidfaoedd, sy'n dueddol o newid, mae darparwyr cynnwys yn ei gweld hi'n fwy a mwy pwysig sicrhau bod gwylwyr yn gallu cael gafael ar eu apiau a'u sianeli sy'n cael eu darparu ar y rhyngrwyd ar lwyfannau teledu cysylltiedig. Mae'r cytundebau rhwng darparwyr cynnwys a llwyfannau teledu cysylltiedig, sy'n pennu pa gynnwys mae llwyfannau'n ei gludo ac yn ei hyrwyddo, yn cael dylanwad pwysig ar y cynnwys teledu mae cynulleidfaoedd yn ei wylio. Mae marchnad sy'n gweithio'n dda ar gyfer llwyfannau teledu cysylltiedig yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn gallu mwynhau amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel.

---

[8] Ofcom, Gwasanaethau cyfathrebu ar-lein personol, 2023.
[9] Gweler y Comisiwn Ewropeaidd, Digital Markets Act: Commission designates six gatekeepers, Medi 2023.

Ynghyd â’r papur hwn, rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi dogfen drafod ar y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig, sy’n edrych ar ba mor dda mae cystadleuaeth rhwng llwyfannau teledu cysylltiedig yn gweithio: yn benodol, a yw lefel bresennol y gystadleuaeth yn galluogi darparwyr cynnwys i gael mynediad at amrywiaeth o lwyfannau er mwyn i wylwyr allu dod o hyd i amrywiaeth o gynnwys teledu. Roedden ni wedi ystyried a allai fod angen amodau cysylltiedig â mynediad i sicrhau mynediad digonol, rhyng-gysylltu a rhyngweithredu ar lwyfannau teledu cysylltiedig. At y diben hwn, fe wnaethon ni ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i edrych ar y cytundebau rhwng llwyfannau a rhai darparwyr cynnwys, sy’n pennu argaeledd ac amlygrwydd cynnwys ar ryngwynebau defnyddwyr llwyfannau.

Yn gyffredinol, gwelsom fod darparwyr cynnwys yn gallu cytuno ar delerau â llwyfannau i sicrhau bod eu cynnwys ar gael. Gall darparwyr cynnwys dalu llwyfannau am y mynediad hwn. Mae rhai darparwyr cynnwys, fel arfer y rhai sydd â chynnwys poblogaidd a chynulleidfa fawr, yn gallu sicrhau cytundebau pwrpasol.

Y tu hwnt i’w cytundebau â darparwyr cynnwys, fe wnaethon ni ganfod bod llwyfannau’n rhoi amlygrwydd i wasanaethau cynnwys y mae gweithredwyr llwyfannau eu hunain yn berchen arnynt, a allai annog rhai cwmnïau i ymuno â marchnadoedd llwyfannau, ond a allai hefyd ei gwneud hi’n anoddach i gynulleidfaoedd gael gafael ar wasanaethau cynnwys trydydd parti. Fe wnaethon ni hefyd ganfod y gallai rhai nodweddion o’r farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig rwystro llwyfannau llai rhag ymuno neu ehangu, a allai yn y pen draw effeithio ar amrywiaeth, ansawdd a chost y cynnwys teledu sydd ar gael i gynulleidfaoedd.

Mae Deddf Cyfryngau 2024 (y Ddeddf Cyfryngau) wedi newid cyfrifoldebau Ofcom fel rheoleiddiwr gwasanaethau darlledu a fideo ar-alw yn y DU. Yn benodol, mae wedi cyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod chwaraewyr a chynnwys gwasanaeth cyhoeddus Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch ar amrywiaeth o lwyfannau teledu cysylltiedig. Rydyn ni wedi penderfynu, fel mater o flaenoriaeth weinyddol, na fyddwn yn ystyried ymhellach y defnydd o amodau cysylltiedig â mynediad yn y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddwn yn blaenoriaethu gweithredu ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Cyfryngau i sicrhau argaeledd, amlygrwydd a hygyrchedd cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau teledu cysylltiedig. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro sut mae’r farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig yn datblygu i sicrhau ei bod yn gweithio er budd dinasyddion a defnyddwyr.

# Meysydd ffocws o hyn ymlaen

Byddwn yn gwneud rhagor o waith i archwilio sut mae marchnadoedd digidol yn cyflawni ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn y sectorau cyfathrebiadau a chyfryngau. Byddwn yn ystyried effeithiau gwasanaethau digidol ar gystadleuaeth ac arloesedd, yn ogystal ag amcanion polisi cyhoeddus ehangach fel cefnogi lluosogrwydd yn y cyfryngau, sy’n hollbwysig i gymdeithas ac i unigolion.

Dau faes y bydd Ofcom yn canolbwyntio arnynt ar unwaith yw effaith cwmnïau digidol mawr ar gyfryngau a band eang symudol yn y DU. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro sut mae marchnadoedd digidol yn dylanwadu ar y sectorau cyfathrebiadau yn ehangach, er mwyn nodi risgiau a manteision posib i ddefnyddwyr a busnesau.

## Effaith cwmnïau digidol mawr ar fand eang symudol

Mae technoleg 5G yn golygu bod modd darparu gwasanaethau o ansawdd gwell i fusnesau a defnyddwyr, ac mae’n gallu cefnogi amrywiaeth o arloesiadau newydd. Er enghraifft, gallai gwell

perfformiad rhwydwaith symudol drwy hollti rhwydweithiau[10] helpu i gefnogi rhaglenni newydd neu well, fel gemau yn y cwmwl a realiti estynedig. Mae systemau gweithredu symudol yn borth rhwng darparwyr rhaglenni, defnyddwyr, busnesau a rhwydweithiau, ac mae'r dull y mae ecosystemau symudol Google ac Apple yn ei ddefnyddio i alluogi technolegau newydd drwy eu systemau gweithredu yn rhan bwysig o'r ffordd y gall band eang symudol ac, yn benodol, rhwydweithiau 5G, ddatblygu.

Yn 2022, roedd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi canfod bod gan Apple a Google bŵer sylweddol a dwfn yn y farchnad o ran systemau gweithredu symudol.[11] Mae dyletswyddau Ofcom yn cynnwys sicrhau bod marchnadoedd band eang symudol yn gweithredu er budd dinasyddion a defnyddwyr ac rydyn ni'n ystyried a allai Apple a/neu Google ddefnyddio'r pŵer hwn yn y farchnad mewn ffordd a allai gael effaith negyddol ar fand eang symudol yn y DU.

Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar ddeall a allai Apple a Google ddylanwadu ar ddatblygiad y gwaith hollti rhwydweithiau, ac a allai hyn arwain at ganlyniadau niweidiol posib i fusnesau a defnyddwyr yn sector symudol y DU, a allai gyfiawnhau ymyrraeth reoleiddiol. Os oes cyfiawnhad, byddwn yn ystyried a yw'n debygol y bydd pryderon penodol yn cael sylw gan y drefn DMCC newydd neu a allai ein pwerau rheoleiddio fynd i'r afael â nhw.

## Effaith cwmnïau digidol mawr ar sector cyfryngau'r DU

Mae 'cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi' yn ganlyniad blaenoriaethol i Ofcom.[12] Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal amrywiaeth eang o gynnwys a gwasanaethau o ansawdd uchel, gan ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol a sicrhau bod newyddion yn ddigon diduedd a chywir.

Mae cynulleidfaoedd yn y DU yn mwynhau dewis anhygoel o gynnwys gan amrywiaeth eang o ddarparwyr, wedi'i gefnogi gan fframwaith rheoleiddio aeddfed. Wrth i ddewisiadau cynulleidfaoedd newid o gyfryngau traddodiadol fel sianeli darlledu a phapurau newydd i wasanaethau cyfryngau ar-lein, mae ein gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio mwy a mwy ar effaith dosbarthu ar-lein. Rydyn ni'n gwneud gwaith i ddeall effaith y newidiadau hyn ar farchnadoedd newyddion a bydd ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn ystyried y goblygiadau i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac i'r sector teledu a radio ehangach yn y DU.[13]

Mae marchnadoedd cyfryngau yn datblygu'n gyflym: er enghraifft, mae AI cynhyrchiol yn sbarduno newidiadau yn y ffordd y caiff cynnwys ei greu a'i ledaenu. Gallai'r newidiadau hyn gael effaith bellach ar argaeledd newyddion a chyfryngau eraill i gynulleidfaoedd.

Mae sawl maes lle gallai cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol effeithio ar ddatblygiad newyddion a chyfryngau eraill yn y DU. Mae pryderon hirsefydlog ymysg cyhoeddwyr newyddion a chrewyr cynnwys eraill ynghylch pŵer bargeinio rhai llwyfannau ar-lein: yn benodol Google, oherwydd ei safle yn y farchnad fel darparwr peiriannau chwilio; a Meta oherwydd ei safle fel

---

[10] Mae technoleg hollti rhwydweithiau yn galluogi gweithredwyr rhwydweithiau symudol i rannu eu rhwydweithiau yn 'holltau' sy'n cynnig nodweddion ansawdd gwasanaeth penodol, gan alluogi'r gweithredwr symudol i reoli traffig yn fwy effeithlon ar ei rwydwaith. Mae'n allu sy'n cael ei wasanaethu orau gan rwydweithiau 5G annibynnol.
[11] Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Mobile ecosystems market study final report, 2022.
[12] Gweler Ofcom, Cynllun Gwaith Ofcom 2024/25, 2024.
[13] Ofcom, Adolygiad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus - Cylch Gorchwyl, 2024.

darparwr cyfryngau cymdeithasol. Yn 2021, rhoddodd Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar sut byddai modd gwneud y berthynas ariannol rhwng y llwyfannau ar-lein mwyaf a chyhoeddwyr newyddion yn decach gan ddefnyddio darpariaethau yn y Bil DMCC arfaethedig (sy'n gyfraith erbyn hyn).[14]

Mae ystod eang o gyhoeddwyr newyddion a chrewyr cynnwys cyfryngau eraill yn defnyddio marchnadoedd hysbysebu digidol i wneud arian o'r sylw maen nhw'n ei gael ar eu gwasanaethau ar-lein. Roedd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi canfod bod problemau eang gyda chystadleuaeth mewn marchnadoedd hysbysebu digidol a nododd rai ymyriadau penodol i fynd i'r afael â nhw y gallai'r Awdurdod eu cyflwyno o dan y drefn marchnadoedd digidol.[15]

Er mwyn cyflawni nodau ehangach Ofcom yn y sector cyfryngau, mae'n bwysig bod cystadleuaeth yn gweithio'n effeithiol yn y marchnadoedd digidol sy'n darparu newyddion a chynnwys arall y mae cynulleidfaoedd yn dibynnu arno ac yn ei werthfawrogi. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i helpu i sicrhau bod y drefn marchnadoedd digidol yn sicrhau canlyniadau da ar gyfer creu newyddion o ansawdd uchel yn y dyfodol, ac ar gyfer dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.

## Parhau i fonitro tueddiadau seilwaith digidol

Byddwn yn parhau i fonitro ein sectorau yn fwy cyffredinol er mwyn deall sut gallai datblygiadau mewn marchnadoedd digidol effeithio ar y sectorau cyfathrebu a chyfryngau. Er enghraifft, maes diddordeb sy'n dod i'r amlwg yw cyfrifiadura ymyl, sy'n gallu gwella ymatebolrwydd rhaglenni (hy oedi) a lleihau costau trosglwyddo data drwy ddefnyddio model o gyfrifiadura gwasgaredig sy'n dod â data a phrosesu'n agos at ddefnyddwyr – at ddyfais y defnyddiwr ei hun o bosib. Mae'r maes hwn yn datblygu, er enghraifft i alluogi rhywfaint o gasgliadau AI[16] i ddigwydd ar lefel y ddyfais a bydd yn dod yn fwy a mwy pwysig o ran sut mae'r rhyngrwyd yn gweithredu a sut bydd gwasanaethau cyfathrebu digidol yn cael eu darparu (er enghraifft cynnwys, gan gynnwys teledu protocol rhyngrwyd).

Byddwn yn parhau i gynyddu ein dealltwriaeth o sut mae seilwaith digidol sy'n bwysig i ddarparu cyfathrebiadau a chyfryngau yn datblygu, gan nodi'r manteision a'r risgiau posib i gystadleuaeth a sut gallai hyn effeithio ar ganlyniadau i fusnesau a defnyddwyr.

## Rheoli'r rhyngweithio rhwng diogelwch ar-lein a rheoleiddio marchnadoedd digidol

Yn sgil Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf Diogelwch Ar-lein), ni yw'r rheoleiddiwr diogelwch ar-lein ac rydyn ni'n disgwyl gweld ein Codau Ymarfer ar gyfer Niwed Anghyfreithlon a Diogelu Plant, fel rhan o'r drefn diogelwch ar-lein, yn pasio drwy Senedd Prydain yn 2025. Bydd angen i wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein

[14] Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Platforms and content providers, including news publishers: Advice to DCMS on the application of a code of conduct, 2021.
[15] Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Online platforms and digital advertising: market study final report, 2020.
[16] Cael allbwn neu ragfynegiad o fodel AI.

gynnal asesiadau risg a chymryd y camau a nodir yn y Codau neu ddefnyddio mesurau effeithiol eraill i ddiogelu defnyddwyr.[17]

Fel mater o drefn, byddwn yn parhau i ystyried y rhyngweithio rhwng ein dyletswyddau diogelwch ar-lein a chystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol. Mae ein hymyriadau diogelwch ar-lein yn destun asesiadau effaith. Fel rhan o'r asesiadau hyn, rydyn ni'n ystyried y goblygiadau ar gyfer cystadleuaeth, gan gynnwys ar gyfer busnesau bach a microfusnesau, ac effeithiau eraill ar ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

Rydyn ni'n ymwybodol o'r rhyngweithio ehangach posib rhwng ein gweithgareddau diogelwch ar-lein a gweithgareddau marchnadoedd digidol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ac rydyn ni'n disgwyl cydweithio a chydlynu â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn hyn o beth, fel y bo'n berthnasol. Fe wnaethom ddisgrifio yn ein datganiad ar y cyd yn 2022[18] y gallai gwneud hynny ein helpu i ddeall a rheoli synergeddau neu densiynau posib rhwng cystadleuaeth a materion diogelwch ar-lein yn well. Wrth i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddechrau ymyrryd o dan ei bwerau newydd mewn marchnadoedd digidol, ochr yn ochr â'n hymyriadau diogelwch ar-lein, byddwn yn ystyried pa feysydd penodol o ryngweithiadau polisi fyddai'n elwa ar ragor o gydweithio a chydlynu.

# Casgliad

Mae'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud o dan Strategaeth Marchnadoedd Digidol 2022 wedi gwella ein dealltwriaeth o wasanaethau digidol a'u heffaith ar y sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Gan adeiladu ar hyn, rydyn ni nawr yn bwriadu archwilio ymhellach effeithiau cwmnïau digidol mawr ar gysylltedd a chyfryngau yn y DU i sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio i ddefnyddwyr, ac o ran cystadleuaeth ac arloesedd.

Wrth ddiffinio ein meysydd ffocws nesaf, rydyn ni wedi ystyried rôl newydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o dan y Ddeddf DMCC. Byddwn yn ymgysylltu â'r Awdurdod pan fydd y drefn marchnadoedd digidol yn effeithio ar y sectorau cyfathrebu a chyfryngau. Byddwn hefyd yn monitro'r rhyngweithio rhwng ein dyletswyddau diogelwch ar-lein a chystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol, gan gynnwys lle gallai fod angen i ni reoli'r rhyngweithio rhwng trefn marchnadoedd digidol yr Awdurdod a'n rheolau diogelwch ar-lein.

Rydyn ni'n cydnabod bod marchnadoedd digidol yn parhau i ddatblygu'n gyflym ac efallai y bydd angen i'n dull gweithredu addasu i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn astudio datblygiadau ehangach mewn gwasanaethau digidol wrth iddynt effeithio ar y marchnadoedd rydyn ni'n eu rheoleiddio, er mwyn canfod risgiau posib i ddefnyddwyr ac i fusnesau. Os byddwn yn gweld tystiolaeth nad yw'r marchnadoedd hynny'n gweithio er budd defnyddwyr a busnesau, byddwn yn ymyrryd os oes angen.

[17] Ofcom, Gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein: diweddariad cynnydd, 2024.
[18] Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Online Safety and competition in digital markets: a joint statement between the CMA and Ofcom, 2022.